Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu

Plas Cwmcynfelin Ltd

Plas Cwmcynfelin, Clarach, Aberystwyth, SY23 3DN

01970623783

plascwmcynfelin.co.uk

Cynhaliwyd yr ymweliadau arolygu blaenorol ar gyfer y gwasanaeth hwn rhwng 10/09/2026 a 17/09/2026

Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

Gweithredir gan:	Plas Cwmcynfelin Limited
Math o Ofal:	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal â Nyrsio i Oedolion
Darpariaeth ar gyfer:	Gofal a chymorth i bobl ag anabledd corfforol, Gofal a chymorth i bobl sy'n byw â dementia
Lleoedd cofrestredig:	53
Prif iaith/ieithoedd:	Cymraeg a Saesneg
Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru:	Mae'r darparwr yn hyrwyddo, yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl.

Graddau:

Llesiant	Rhagorol
Gofal a Chymorth	Rhagorol
Yr Amgylchedd	Rhagorol
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Rhagorol

Crynodeb:

Mae Plas Cwmcynfelin Cyfyngedig yn gartref gofal sefydledig lle mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau rhagorol am eu bod yn cael gofal a chymorth sydd wedi'u personoli'n ofalus gan dîm o staff medrus ac ymroddedig sy'n cael eu cefnogi'n dda. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch a chânt eu hannog i wneud dewisiadau am eu bywydau o ddydd i ddydd. Maent yn cynnal cydberthnasau pwysig, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon ac yn cael eu cefnogi i gyflawni eu nodau a'u dyheadau personol.

Mae'r bobl yn elwa ar amgylchedd rhagorol sy'n gynnes, yn groesawgar, yn gartrefol ac sy'n hybu annibyniaeth, dewis a llesiant. Mae'r ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol yn adlewyrchu dewisiadau unigol, ac mae'r gerddi'n darparu cyfleoedd i ymlacio ac ar gyfer gweithgaredd hamdden ac ystyrlon. Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r

cartref ac yn cefnogi'r bobl i gyfathrebu yn eu dewis iaith.

Mae'r arweinwyr yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn darparu arweinyddiaeth ragorol. Maent yn gweithio ochr yn ochr â'r staff gofal, yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol ac yn buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu'r gweithlu. Caiff y staff hyfforddiant a chymorth helaeth i ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i'r bobl. Mae'r systemau llywodraethu a sicrhau ansawdd cadarn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei adolygu a'i wella'n barhaus.

Mae'r gofal a'r cymorth yn rhagorol. Mae gweithwyr proffesiynol, perthnasau a'r bobl sy'n byw yn y cartref yn siarad yn gadarnhaol yn gyson am ansawdd y gofal, y cyfathrebu a'r arweinyddiaeth. Mae'r cartref yn dangos ymrwymiad clir i welliant parhaus a darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Canfyddiadau:

Llesiant — Rhagorol

Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau llesiant rhagorol gan eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn cael eu cefnogi i gael dewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom ddiwylliant cryf, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, lle mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn eithriadol o dda ac yn eu hannog i gynnal eu hannibyniaeth, eu cydberthnasau a'u diddordebau. Gall y bobl fynychu cyfarfod bob 6 wythnos i drafod bywyd yn y gwasanaeth neu gallant siarad â'r Unigolyn Cyfrifol sy'n bresennol yn y cartref bob dydd. Gwelsom bobl yn rhyngweithio'n hyderus â'r unigolyn cyfrifol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau byw yn y cartref, bod ganddynt ddigon o ddewisiadau o ran bwyd, gweithgareddau ac arferion dyddiol, a'u bod yn hyderus bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb i'w dymuniadau. Dywedodd un person wrthym,*"We ask and it's delivered for us."* Dywedodd un arall "*couldn't ask for a nicer place."*

Mae'r bobl yn elwa ar gyfleoedd ystyrlon sy'n adlewyrchu eu diddordebau a'u dewisiadau. Gwelsom ffurflenni "Dyma fi" a oedd yn nodi dewisiadau unigol y bobl, a oedd wedyn yn cael eu hadlewyrchu yn eu cynlluniau personol ac yn cael eu datblygu ymhellach ynddynt. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys sesiynau atgofion, rhaglenni ymarfer corff, celf, cerddoriaeth, aromatherapi, teithiau allan i'r gymuned a defnyddio technoleg ryngweithiol a gynlluniwyd i gefnogi ymgysylltiad i bawb. Mae'r bobl yn cynnal cydberthnasau teuluol, yn ymweld â'r gymuned ac yn cyfrannu at brosiectau garddio. Dywedodd sawl unigolyn wrthym eu bod yn mwynhau treulio amser gyda'u teuluoedd, gan gynnwys ymweliadau dros nos a theithiau allan â chymorth. Dywedodd perthynas arall wrthym sut roedd y bobl eu cefnogi i wneud galwadau ffôn i ddathlu digwyddiadau arbennig megis penblwyddi.

Gwelsom ryngweithio cynnes, hamddenol a pharchus rhwng y staff gofal a'r bobl. Treuliodd un nyrs amser yn ymgysylltu'n gymdeithasol â'r bobl sy'n byw â dementia dros baned canol bore, gan hyrwyddo rhyngweithio ystyrlon a llesiant emosiynol. Mae'r staff yn gweithredu ar gyflawniadau'r bobl. Roedd un person wedi ysgrifennu llyfr yn y gorffennol ac roedd y staff wedi gweithio'n galed i ddod o hyd i'r llyfr a'i brynu er mwyn dathlu'r cyflawniad hwn. Cymerodd y bobl ran yn y sioe leol yn ddiweddar lle gwnaethant ennill gwobrau am eu gwaith celf, a chafodd hyn ei ddathlu hefyd.

Caiff hawliau, dewisiadau a dyheadau'r bobl eu hybu drwy waith cynllunio personol a gwaith partneriaeth effeithiol gyda'r teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol. Dywed y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gyson fod y gwasanaeth yn groesawgar, yn ymatebol ac yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r bobl. Mae'r staff yn gweithio'n rhagweithiol gydag arbenigwyr allanol i gefnogi gofal adsefydlu, symudedd a llesiant emosiynol. Roedd rhai pobl wedi dychwelyd i fyw yn eu cartrefi eu hunain, gan ddangos ymrwymiad y gwasanaeth i gefnogi'r bobl i gyrraedd eu nodau

personol.

Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Caiff y bobl sy'n siarad Cymraeg eu cefnogi i gyfathrebu yn eu dewis iaith; mae dogfennaeth ar gael yn ddwyieithog, a chaiff y staff eu hannog i ddatblygu sgiliau Cymraeg.

Ceir diwylliant agored cadarn. Mae'r bobl, y perthnasau a'r gweithwyr proffesiynol yn canmol yr arweinwyr sy'n hawdd mynd atynt, sy'n gwrando, yn gweithredu ar sail adborth ac yn sicrhau bod y bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi i fyw bywydau boddhaus.

Gofal a Chymorth — Rhagorol

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth rhagorol am fod gan y staff gofal ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion, eu dewisiadau a'u dyheadau unigol. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru'n brydlon pan fydd anghenion yn newid. Gwnaethom edrych ar gofnodion a oedd yn dangos yn glir bod anghenion iechyd yn cael eu nodi ac yr ymatebir iddynt yn gyflym, a bod argymhellion gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau personol ac mewn arferion dyddiol. Mae unigolion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau rheolaidd, a chedwir cofnodion trylwyr a chyson o'r cyfathrebu â chynrychiolwyr. Soniodd y teuluoedd sut roedd y cyfathrebu rhagorol yn eu gwneud yn hyderus yn y gofal y mae'r bobl yn ei gael.

Mae'r bobl yn elwa ar waith partneriaeth hynod effeithiol. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol yn gyson fod y cyfathrebu'n rhagorol, a gwnaethant ddweud wrthym fod y staff yn rhannu gwybodaeth yn brydlon, yn ceisio cyngor arbenigol ac yn gweithredu'n gyflym ar argymhellion. Gwelsom dystiolaeth o gyfranogiad parhaus gweithwyr proffesiynol ym meysydd nyrsio, therapi, gwaith cymdeithasol ac adsefydlu, gan gynnwys asesiadau gan ffisiolegwyr ymarfer corff sy'n llywio cynlluniau symudedd a strategaethau atal cwympiadau. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol wrthym yn gyson fod y staff gofal yn adnabod y bobl yn eithriadol o dda, gan olygu bod modd i'r gofal ymateb i anghenion sy'n newid a helpu'r bobl i gyflawni canlyniadau iechyd, symudedd a llesiant cadarnhaol.

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff gofal medrus, gwybodus ac ymatebol. Mae'r staff yn parhau i ddatblygu eu sgiliau drwy hyfforddiant gorfodol a drefnir gan yr unigolyn cyfrifol, ac fe'u cefnogir hefyd i fynd ar drywydd eu diddordebau proffesiynol eu hunain. Er enghraifft, mae un aelod o'r staff wedi cwblhau gradd meistr mewn Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes ac mae bellach yn darparu cymorth i'r tîm gofal. Dywedodd un aelod o'r staff *"Training is very good as it gives me the skills and knowledge to care for people and do my own research especially with dementia"*

Disgrifiodd y staff ddull tîm cyfan o nodi anghenion sy'n newid a sicrhau bod pryderon yn cael eu datrys yn brydlon. Mae'r cofnodion yn dangos cyfathrebu clir rhwng y staff gofal a'r nyrsys, wedi'i ategu gan wybodaeth fanwl yn y llyfr trosglwyddo. Caiff y wybodaeth hon ei throsglwyddo i gofnodion dyddiol a chynlluniau personol. Dywedodd y staff, *"we do it straight away, so we don't miss anything".* Caiff y trefniadau cyfathrebu eu cefnogi gan dri sesiwn trosglwyddo ar lafar bob dydd.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed am fod y staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu, yn ymateb yn brydlon i bryderon, ac yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau i wella eu hymarfer. Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau, maent wedi cwblhau

hyfforddiant cyfredol, ac maent yn hyderus wrth roi gwybod am bryderon. Caiff cofnodion Damweiniau a Digwyddiadau eu monitro'n effeithiol, a chaiff tueddiadau eu dadansoddi er mwyn nodi cyfleoedd i wella ac i ddarparu hyfforddiant pellach i'r staff.

Mae rheoli meddyginiaethau yn gryfder penodol. Mae cofnodion rhoi meddyginiaethau cywir, prosesau archwilio cadarn, asesiadau o gymhwysedd a goruchwyliaeth barhaus yn helpu i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhoi'n ddiogel. Mae'r ystafell meddyginiaethau yn hynod drefnus, ac mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn dilyn polisïau meddyginiaeth y darparwr yn gyson.

Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol am fod y gofal wedi'i bersonoli'n ofalus ac yn ymatebol. Mae gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn sicrhau bod anghenion iechyd sy'n newid yn cael eu nodi'n gyflym, a bod cymorth yn cael ei addasu yn ddi-oed.

Yr Amgylchedd — Rhagorol

Mae'r bobl yn elwa ar amgylchedd sydd, nid yn unig yn diwallu eu hanghenion, ond hefyd yn gwella ansawdd eu bywyd a'u llesiant. Mae'r cartref yn lân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac yn groesawgar, gydag amrywiaeth o ardaloedd cymunedol a phreifat sy'n galluogi'r bobl i dreulio amser ar eu pen eu hunain, cymdeithasu â ffrindiau a theulu, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Gwelsom fod awyrgylch cynnes a chartrefol yn y cartref, wedi'i ategu gan ddodrefn a ddewiswyd yn ofalus, blodau ffres ac addurn sy'n adlewyrchu anghenion a dewisiadau'r bobl sy'n byw yno.

Caiff y bobl eu hannog i bersonoli eu hamgylchedd a chreu ardaloedd sy'n teimlo'n gartrefol. Mae'r ystafelloedd gwely yn cynnwys dodrefn personol, ffotograffau, addurniadau ac eiddo gwerthfawr sy'n cael eu trysori gan y bobl sy'n byw yno. Mae'r staff yn dangos ymrwymiad gwirioneddol i gefnogi dewisiadau unigol. Er enghraifft, roedd silffoedd wedi'u gosod i arddangos addurniadau sy'n cael eu trysori, ac mae porthwyr adar wedi'u lleoli y tu allan i ffenestri er mwyn denu bywyd gwyllt. Gwelsom y bobl yn mwynhau gwylio'r adar drwy gydol y dydd. Mae un person yn arbennig yn mwynhau eistedd wrth y ffenestr yn edrych dros y golygfeydd cyfagos wrth wylio'r adar sy'n ymweld, a oedd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei ymdeimlad o lesiant a mwynhad.

Mae'r amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth, dewis ac ymgysylltiad cymdeithasol. Mae nifer o ardaloedd cymunedol yn galluogi'r bobl i ddewis ble a sut maent yn treulio eu hamser, yn hytrach nag aros yn eu hystafelloedd gwely. Mae'r gerddi helaeth yn darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden, ymlacio a gweithgaredd ystyrlon. Mae'r bobl yn ymwneud â gweithgareddau garddio, tyfu llysiau, gofalu am blanhigion a chynnal a chadw gwelyau blodau. Mae heuldy sydd newydd ei osod yn ogystal â chynlluniau ar gyfer llwybrau hygyrch yn dangos ymrwymiad parhaus y darparwr i wella'r ardaloedd awyr agored a sicrhau y gall pobl o bob gallu eu mwynhau.

Caiff y bobl eu cefnogi gan systemau effeithiol sy'n sicrhau amgylchedd diogel. Gwnaethom edrych ar y ddogfennaeth yn ymwneud â diogelwch tân, iechyd a diogelwch, a gwasanaethu a chynnal a chadw cyfarpar. Caiff y gwiriadau gofynnol eu cynnal yn gyson, gan gynnwys ymarferion tân, gwasanaethu cyfarpar, gwiriadau ar y cyfarpar symudedd ac archwiliadau amgylcheddol. Mae'r darparwr wedi nodi bod angen buddsoddi'n sylweddol i uwchraddio'r system larwm tân, y system clychau galw a'r systemau trydanol, ac mae wedi gwneud cynlluniau ar gyfer hynny, gan gynnal trefniadau priodol i reoli risgiau drwy gydol y gwaith.

Mae'r cartref yn cynnwys cyfarpar i ddiwallu amrywiaeth eang o anghenion. Mae cyfarpar arbenigol ar gael lle bo angen, ac mae amrywiaeth o seddi, goleuadau a dodrefn yn helpu i sicrhau cysur ac annibyniaeth. Mae'r ceginau'n lân, yn drefnus ac yn ymateb i ddewisiadau a gofynion deietegol y bobl. Gwnaethom hefyd ganfod bod yr ystafell meddyginiaethau yn hynod drefnus, yn lân ac wedi'i

chynnal a'i chadw'n ddiogel, gan adlewyrchu sylw'r darparwr i fanylion a'i ymrwymiad i ansawdd. Yn gyffredinol, mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n ddiogel, wedi'i bersonoli, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac wedi'i gynllunio i gefnogi canlyniadau cadarnhaol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Rhagorol

Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau rhagorol am fod y gwasanaeth yn elwa ar arweinyddiaeth gref, weladwy a hynod effeithiol. Mae'r unigolyn cyfrifol, sef y rheolwr cofrestredig hefyd, yn bresennol yn y cartref bob dydd ac mae wedi meithrin diwylliant sy'n seiliedig ar egwyddorion arweinyddiaeth ymarfer. Mae'r arweinwyr yn gweithio ochr yn ochr â'r staff gofal, maent yn darparu hyfforddiant, arweiniad a chymorth amser real, ac mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o anghenion y bobl, disgwyliadau'r teuluoedd a gofynion datblygu'r staff. Mae'r dull gweladwy hwn yn galluogi'r unigolyn cyfrifol i nodi problemau'n brydlon; cefnogi staff yn effeithiol, a gwella canlyniadau i bobl yn barhaus.

Ceir ymrwymiad cryf iawn i welliant parhaus a sicrhau ansawdd. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r uwch-aelodau o'r staff yn cynnal archwiliadau cynhwysfawr o gynlluniau personol, cofnodion gofal, meddyginiaeth, damweiniau/digwyddiadau, yr amgylchedd a systemau iechyd a diogelwch. Caiff canfyddiadau eu rhannu'n brydlon â'r staff drwy gyfarfodydd, sesiynau goruchwylio a systemau cyfathrebu dyddiol, gan sicrhau bod gwelliannau'n cael eu rhoi ar waith ar unwaith. Nodwyd gennym fod prosesau adolygu ansawdd y darparwr, yr ymweliadau sy'n ofynnol o dan y rheoliadau a'r adroddiadau ar ansawdd y gofal yn adlewyrchu'n gywir y gwasanaeth a welsom ac yn dangos bod goruchwyliaeth ragorol ar y cartref.

Mae'r bobl yn elwa ar ddiwylliant cadarnhaol a chynhwysol lle mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Disgrifiodd yr aelodau o'r staff y cartref yn gyson fel un tîm, teulu mawr, a lle mae pawb yn cydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwyr yn hawdd mynd atynt, yn gwrando ar eu barn, ac yn gweithredu ar sail pryderon a fynegir. Gwelsom dystiolaeth gref o ddiwylliant dysgu lle mae'r staff yn cael eu hannog i herio arferion, rhannu syniadau a chyfrannu at welliannau i'r gwasanaeth. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant arbenigol ar ddementia, cafodd y staff eu cefnogi i wneud newidiadau i'r amgylchedd a'r dulliau gofal er mwyn diwallu anghenion y bobl yn well.

Mae'r darparwr yn dangos ymrwymiad eithriadol i ddatblygu'r staff a buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol. Yn ogystal â hyfforddiant a chymwysterau gorfodol, caiff y staff eu cefnogi i fynd ar drywydd diddordebau unigol a dyheadau proffesiynol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys cymorth ar gyfer cymwysterau Gofal Cymdeithasol uwch, astudiaethau nyrsio ar lefel gradd, cymwysterau meistr mewn gofal lliniarol a gofal diwedd oes, a hyfforddiant arbenigol ar ddementia. Mae un nyrs wedi cael ei chefnogi i ddatblygu arbenigedd uwch ac mae bellach yn darparu hyfforddiant ychwanegol i'w chydweithwyr, gan gryfhau sgiliau ar draws y gwasanaeth.

Mae'r darparwr hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn datblygu addysg nyrsio yn y gymuned leol. Ymgymerodd yr arweinwyr ac aelodau o'r staff â hyfforddiant ychwanegol er mwyn dod yn

ddarparwr lleoliadau cydnabyddedig ar gyfer myfyrwyr nyrsio prifysgol a rhaglenni mynediad i nyrsio. Mae'r fenter hon yn hyrwyddo gyrfaoedd ym maes nyrsio pobl hŷn, yn creu cyfleoedd datblygu i'r staff, ac yn galluogi gweithwyr profiadol i rannu eu sgiliau a'u gwybodaeth â'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol. Mae hyn yn dangos ymrwymiad, nid yn unig i'r bobl sy'n byw yn y cartref ar hyn o bryd, ond hefyd i wella'r gweithlu a fydd ar gael yn y dyfodol i gefnogi pobl hŷn.

Mae'r systemau recriwtio, goruchwylio a rheoli'r gweithlu yn gadarn. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys tystiolaeth o wiriadau recriwtio priodol, cymwysterau, cofrestriadau a gwiriadau datgelu. Caiff y trefniadau staffio eu cynllunio'n ofalus er mwyn darparu parhad gofal a sicrhau aelodau o staff sy'n adnabod y bobl yn dda. Cynhelir sesiynau goruchwylio ffurfiol yn rheolaidd, wedi'u hategu gan gymorth dyddiol gan arweinwyr sydd bob amser yn bresennol yn y gwasanaeth.

Gwnaeth y bobl, y perthnasau, y staff a'r gweithwyr proffesiynol ddweud bod yr arweinwyr yn hygyrch, yn ymatebol ac yn ofalgar. Mae eu gwerthoedd cadarn, eu hymrwymiad i fuddsoddi, a'u dull arweinyddiaeth ymarfer gweladwy iawn wedi creu diwylliant lle caiff y bobl eu gwerthfawrogi, lle caiff y staff eu grymuso a lle darperir gofal o ansawdd uchel yn gyson.

Meysydd i'w gwella a nodwyd

Pan fyddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ac nad ydym wedi canfod bod risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl, byddwn yn tynnu sylw at y rhain gyda'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, rydym yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth.** O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a bydd yn rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

Ni nododd AGC unrhyw feysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad hwn.

Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2026.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.